

Prospectws


YSGOL GRIFFITH JONES

Prospectus




Dysgu Gyda'n Gilydd
Learning Together

Cynnwys	Tudalen/Page	Content
Ein Gweledigaeth	1	Our Vision
Gair gan y Pennaeth	2	Headteacher's Foreword
Manylion yr Ysgol	3	School Details
Y Corff Llywodraethol	4	The Governing Body
Amcanion Cyffredinol yr Ysgol	5	General Aims of the School
Math o Ysgol Dosbarthiadau	6	School Type Classes
Oriau Dysgu Adeiladau ac Adnoddau	7	Teaching Hours Buildings and Facilities
Derbyn Plant	8	Admission
Presenoldeb Salwch	9	Attendance Illness
Gwyliau yn ystod y Tymor Trefniadau Gofal Bugeiliol	10	Holidays in Term Time Pastoral Care
Ein Cwricwlwm	11-12	Our Curriculum
Ein Amgylchedd Dysgu Asesu	13	Our Learning Environment Assessment
Llais y Disgybl	14	Pupil Voice
Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)	15-16	Relationships and Sexuality Education (RSE)
Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg	16	Religion, Values and Ethics
Addoli ar y Cyd Anghenion Addysg Ychwanegol	17	Daily Act of Collective Worship Additional Learning Needs
Cyfle Cyfartal Diogelu Plant / Amddiffyn Plant	19	Equal Opportunities Safeguarding / Child Protection
E-Ddiogelwch Strategaeth Gwrth-fwlio Disgyblion ag Anabledd	21	E-Safety Anti-bullying Strategy Pupils with Disabilities
Iechyd a Lles	22	Health and Wellbeing
Athrawon Teithiol Cerddoriaeth Cinio Ysgol	23	Peripatetic Music Staff School Dinners
'Prydau Ysgol am Ddim' a 'Phrydau Ysgol Am Ddim i bob Plentyn Ysgol Gynradd (UPFSM) Hanfodion Ysgol (PDG – Mynediad)	24-25	Universal Primary Free School Meals and Free School Meals School Essentials (PDG Access)
Amser Chwarae	26	Play Time
Diogelwch Tywydd Garw	27	Security Inclement Weather
Rheolau'r Ysgol a Disgyblaeth	28	School Rules and Discipline
Trefniadaeth ar Gyfer Rhieni	29	School Organisation for Parents
Cwynion	30	Complaints
Gwisg Ysgol	31	School Uniform
Gwaith Cartref	32	Homework
Gweithgareddau Allgyrsiol	33	Extra-curricular Activities
Cymdeithas Rieni Athrawon a Ffrindiau	34	Parent Teacher and Friends Association
Clwb Brecwast Am Ddim Clwb yr Enfys	35	Free Breakfast Club Clwb yr Enfys
Tymhorau a Gwyliau Ysgol	36	School Terms and Holidays
Cais am Wyliau	37	Holiday Request
Cytundeb Ysgol-Cartref	38-39	Home-School Agreement

Ein GweledigaethDatganiad Cenhadaeth

Yn Ysgol Griffith Jones 'rydym yn paratoi ein disgyblion ar gyfer bywyd yn yr 21^{ain} Ganrif.

Our VisionMission Statement

At Ysgol Griffith Jones we prepare our children for life in the 21st Century.

Gair gan y Pennaeth / Headteacher's Foreword

Mae dewis yr ysgol gywir i'ch plentyn yn hollbwysig. Mae rhieni am sicrhau addysg dda i'w plant ond maent hefyd am iddynt fod yn hapus a theimlo'n ddiogel. Yn Ysgol Griffith Jones credwn y gallwn gynnig pob un o'r pethau hyn.

Mae'r llawlyfr hwn yn cynnwys gwybodaeth am yr ysgol. O'i ddarllen fe ddylech gael syniad da o beth y ceisiwn ei gyflawni yn yr ysgol. Un o'r amcanion yw sicrhau fod pob plentyn yn mwynhau'r profiad o fod yn Ysgol Griffith Jones. Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau amgylchedd diogel, lliwgar a chyffrous.

Mae Ysgol Griffith Jones yn le hapus. Mae'r athrawon a'r staff cynnal yn gweithio'n ddiflino ac â arddeliad. Mae ganddynt berthynas dda â'r plant ac ymfalchiwn yn yr addysg eang, gytbwys a llawn a ddarparwn, safonau uchel yr addysg a'r dysgu a'r berthynas effeithiol sydd rhwng yr ysgol a'r cartref, a'r gymuned leol.

Rydym yn gwerthfawrogi ein disgyblion ac yn credu y dylai eu hamser yn yr ysgol fod yn werthfawr ac yn foddhaus.

Mae gennym bolisi 'drws agored'; ac os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder, cysylltwch â ni yn syth.

Choosing the right school for your child is vitally important. Parents want a good education for their children but they also want them to feel happy and to feel safe and secure. At Ysgol Griffith Jones we believe we can offer these things.

This handbook contains information about the school. Reading it should give you an idea of what we're all about. One of our aims is to ensure that every child enjoys their time at Ysgol Griffith Jones. We strive to provide a safe, colourful and exciting environment.

Ysgol Griffith Jones is a happy school. The teachers and support staff are all hardworking and conscientious and have a wonderful relationship with the pupils. We pride ourselves on the broad, balanced and full curriculum we offer, the high standards of teaching and learning and the effective working relationship with parents and the local community.

We value our pupils and believe that their time in school should be rewarding and fulfilling.

We have an 'open-door' policy; if you're concerned about anything, please contact us.

Mr Emyr Davies
Pennaeth / Headteacher





Heol yr Orsaf / Station Road
Sanclêr / St Clears
Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire
SA33 4BT

Ffôn

01994 230589
01994 230280

Phone

Cyfeiriad e-bost

admin@griffithjones.ysgolccc.cymru

E-mail Address

Pennaeth

Mr Emyr Davies

Headteacher

Dirprwy Bennaeth

Mrs Mai Giles

Deputy Headteacher

Pennaeth Cynorthwyol

Mrs Kay Jenkins

Assistant Headteacher

Awdurdod Addysg

Cyngor Sir Caerfyrddin
Carmarthenshire County Council

Education Authority

Cyfarwyddwr Addysg a
Phlant
Corff Llywodraethol

Mr Owain Lloyd
Ysgol Griffith Jones
Rhif / No: 44

Director of Education
and Children
Governing Body

Tudalen We

www.griffithjones.ysgolccc.cymru

Web Page

Y Corff Llywodraethol / The Governing Body

CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR / CHAIRPERSON OF GOVERNORS:

Mrs Lynnette Phillips
Gilfach, Cwmbach, Whitland, Carmar
SA34 0DN
07968 097346

CLERC I'R LLYWODRAETHWYR / CLERK TO THE GOVERNORS:

Mrs Elinor Evans
Swyddog Gweinyddol / Administrative Officer
Ysgol Griffith Jones
Heol yr Orsaf / Station Road
Sanclêr / St Clears
SA33 4BT

ENW NAME	STATWS STATUS	DYDDIAD TERFYNU TERM OF OFFICE EXPIRES
Mr Emyr Davies	Pennaeth / Headteacher	
Cyng/Cllr Philip M Hughes	Llywodraethwr Awdurdod Addysg Lleol Local Education Authority Governor	01.02.28
Mr Kevin Jenkins	"	05.02.26
Mr Tim John	"	31.03.27
Mrs Lynnette Phillips	Llywodraethwr Cymunedol Community Governor	04.05.29
Mrs Carly Jones	"	23.03.29
Mrs Enfys John	"	08.04.29
Mr Owain Grant	Llywodraethwr Cymunedol Ychwanegol Additional Community Representative	28.03.27
Mrs Helen Thomas	Rhiant Lywodraethwr Parent Governor	19.03.29
Mrs Carwen Morgan-Davies	"	23.03.29
Mr Richard Davies	"	09.10.26
Mrs Lisa Davies	"	25.11.26
Mrs Mai Giles	Athro Lywodraethwr Teacher Governor	28.11.27
Mrs Amanda Jones	Staff Lywodraethwr / Staff Governor	29.03.29

Cadeirydd/Chairperson	Mrs Lynnette Phillips
Is-Gadeirydd/Vice-Chairperson	Mr Kevin Jenkins

Amcanion Cyffredinol yr Ysgol

- I ddarparu awyrgylch diogel, hapus ac ysgogol ar gyfer dysgu.
- Rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu i'w lawn botensial drwy gael amrywiaeth o brofiadau diddorol a pherthnasol heb ragfarn i gefndir, hil neu grefydd.
- I ddatblygu meddyliau bywiog ymholgar, gan gynnwys y gallu i ofyn cwestiynau ac i ddadlau'n rhesymol ynghyd â chymhwyso eu hunain i dasgau a osodir.
- I ddatblygu defnydd effeithiol o lythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol dysgwyr.
- I ddatblygu sgiliau corfforol ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau a luniwyd i wella'i iechyd a lles.
- I sicrhau bod dwyieithrwydd yn cael ei hybu ym mhob agwedd o'r ysgol.
- Bydd gan bob plentyn lais. Mae'r Cyngor Ysgol yn caniatáu pawb i gyfrannu tuag at ddatblygiad yr ysgol.

General Aims of the School

- To provide a safe, happy and stimulating environment for learning.
- To give each child the opportunity to develop to his or her full potential through experiencing a variety of interesting and relevant experiences regardless of background, race or religion.
- To develop lively, enquiring minds, including the ability to question and argue rationally and to apply themselves to tasks.
- To develop the use of learners' literacy, numeracy and digital skills.
- To develop physical skills and take part in activities designed to improve their health and wellbeing.
- To ensure bilingualism is promoted in all areas of the school.
- Every child will have a voice. The School Council allows all to contribute to the development of the school.



Math o Ysgol

Yn unol â pholisi iaith Awdurdod Addysg Sir Gaerfyrddin mae Ysgol Griffith Jones wedi ei chlustnodi yn ysgol ddwy ffrwd yn darparu ar gyfer plant Meithrin, Babanod ac iau o 3-11 oed.

Ffrwd Gymraeg - Dosbarthiadau yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ffrwd Saesneg - Dosbarthiadau yn derbyn eu haddysg yn bennaf trwy gyfrwng Saesneg a Chymraeg yn cael ei ddysgu fel ail iaith.

Cymraeg yw'r prif gyfrwng addysgu yn y Dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen.

O Flwyddyn 3 ymlaen mae rhieni yn dewis naill ai addysg yn y Ffrwd Gymraeg neu'r Ffrwd Saesneg.

Dosbarthiadau

Ceir disgyblion o allu cymysg ym mhob dosbarth – gyda'r maint yn amrywio rhwng 20-30 o blant. Mae plant wedi eu rhannu i ddosbarthiadau fel a ganlyn:

School Type

In accordance with Carmarthenshire Education Authority's Language policy, Ysgol Griffith Jones has been designated a dual stream school catering for Nursery, Infants and Junior pupils of the age range 3-11 years old.

Welsh Stream - Classes are taught through the medium of Welsh.

English Stream - Classes are taught mainly through the medium of English with Welsh taught as a second language.

The Foundation Phase Classes have Welsh as the main medium of instruction.

From Year 3 onwards parents are given the choice of Welsh Stream or English Stream education.

Classes

All classes have children of mixed ability – class sizes range from 20-30 pupils. Children are divided into classes as follows:

Blwyddyn / Year	Athro / Athrawes Dosbarth	Ffrwd/Stream
Meithrin / Nursery	Mrs Llinos Griffiths	A – Cymraeg / Welsh
Derbyn / Reception	Mrs Kay Jenkins	A
Derbyn a Blwyddyn 1 Reception & Year1	Mrs Rhian Taylor	A
1 & 2	Mrs Eleri Lewis	A
2	Mrs Wendy James (Miss Carys Evans)	A
3	Miss Ffion Campbell	A
3 & 4	Mrs Jo Mason	B – Saesneg / English
4	Mrs Nerys Howells	A
4	Mrs Mai Giles	A
5	Mrs Carys Jones	A
6	Mrs Enfys Thomas	A
5 & 6	Mr David Toms	B

Dysgir y dosbarthiadau yn bennaf gan athrawon dosbarth penodedig. Mae gan yr ysgol athrawon CPA yn ogystal sef Mrs Lisa Jones, Mrs Wendy Griffiths a Mrs Ceirios Jenner.

Classes are taught in the main by designated class teachers. The school also has 4 PPA teachers, Mrs Lisa Jones, Mrs Wendy Griffiths and Mrs Ceirios Jenner.

Oriau Ysgol / School Hours		
Cofrestru	8.55-9.00	Registration
Gwasanaeth	9.00-9.15	Assembly
Gwersi	9.15-10.30	Lessons
Amser Chwarae	10.30-10.45	Playtime
Gwersi	10.45-12.00	Lessons
Amser Cinio	12.00-1.00	Lunchtime
Gwersi	1.00-2.15	Lessons
Saib lles	2.15-2.30	Wellbeing break
Gwersi	2.30-3.30	Lessons

Diwedd Diwrnod Ysgol / End of School Day		
Meithrin	3.00	Nursery
Cyfnod Sylfaen	3.15	Foundation Phase
Cyfnod Allweddol 2	3.30	Key Stage 2

ORIAU'R WYTHNOS A DREULIR AR DDYSGU / HOURS OF WEEK SPENT ON TEACHING
gan eithrio Gwasanaeth Boreol ac Amser Chwarae/excluding Collective Worship and Playtimes

	Oriau / Hours
Meithrin / Nursery - Rhan-amser / Part-time	12.5
Meithrin / Nursery - Llawn-amser / Full-time	21.00
Cyfnod Sylfaen / Foundation Phase	22.15
Cyfnod Allweddol 2 / Key Stage 2	23.30

Adeiladau Ac Adnoddau

Mae'r ysgol hon yn cynnig rhai o'r adeiladau a'r adnoddau gorau mewn unrhyw ysgol gynradd yn Sir Gâr. Mae'r feithrinfa yn cynnig darpariaeth wych i'r plant dan bump.

Mae'r neuadd, y llwyfan a'r llwyfan symudol yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu gwaith drama ac i gynnal nosweithiau cymdeithasol.

Mae'r meysydd chwarae eang yn cynnig safle gwych i ymarfer gwahanol weithgareddau ym mdy mabolgampau.

Yn ogystal, mae Campfa enfawr – un o'r ychydig a geir mewn unrhyw Ysgol Gynradd yng Nghymru - yn rhoi cyfleon i blant i ddatblygu sgiliau chwaraeon ac ymarfer corff. Mae gennym Lyfrgell sy'n rhoi dewis eang o ddeunydd darllen i'r dysgwyr.

Mae gennym hefyd ddwy ystafell synhwyraidd ar gyfer cynnal ymyraethau ac i hyrwyddo lles emosiynol dysgwyr.

Buildings And Facilities

This school provides some of the best buildings and facilities of any primary school in Carmarthenshire. Housing self-contained Nursery the provision available for the younger child is second to none.

The large school hall, together with the permanent and moveable stage offer excellent facilities for drama work and school functions. The extensive playing fields provide an impressive play area as well as providing a wide range of sporting activities.

A large gymnasium - one of the very few in any Welsh Primary School - affords the opportunity for all pupils to participate in games and physical education.

We have a Library which allows learners to choose from a wide range of reading material. We also have two multi-sensory rooms which are used for pupil interventions as well as promoting pupils' emotional wellbeing.

Derbyn Plant

Derbynnir plant i'r Uned Feithrin ar ddechrau'r tymor sydd yn dilyn eu trydydd penblwydd, yn unol â pholisi'r Awdurdod Addysg Lleol.

Byddant yno am y prynhawn yn unig yn ystod eu tymor cyntaf yn yr ysgol, ac yna yn mynychu'r sesiwn boreol yn ystod eu hail a'u trydydd tymor. Ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pedwerydd penblwydd bydd y plant yn yr ysgol trwy'r dydd. Efallai bydd angen newid y drefn uchod pan fo rhifau'r plant yn uchel. Bydd y plant llawn-amser yn cael cinio ysgol o 11.30yb ymlaen. Gofynnir yn garedig i'r rhieni ddod i gasglu'r plant rhan-amser boreol o'r Meithrin am 11.30yb.

Gofynnir i rieni sydd am gofrestru eu plant yn yr ysgol i fynd yn syth at dudalen we Cyngor Sir Caerfyrddin i wneud cais am le ar-lein ar:
<https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasan-aethaur-cyngor/addysg-ac-ysgolion/>

Ar ddiwedd y tymor cyn bo'r plant yn cychwyn yn yr ysgol gwahoddir nhw i gyfarfod anffurfiol i gwrdd â'r staff a'r disgyblion newydd eraill o'r un oedran, ac i glywed am drefniadaeth y Feithrin a'r ysgol. Ar yr adeg hynny cyflwynir amrywiol ffurflenni cofrestru i'r rhieni a bydd y Prifathro a'r athrawes Feithrin yn egluro natur y ffurflenni iddynt.

Am fanylion pellach cysylltwch â:
 Yr Uned Derbyniadau
 Adran Addysg, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
 Neuadd y Sir
 Caerfyrddin
 SA31 1JP
☎01267 246449
admissions@carmarthenshire.gov.uk

Bydd cais llwyddiannus yn dibynnu ar y nifer o lefydd gwag yn y flwyddyn ysgol briodol.

Admission Policy

Pupils are admitted to the Nursery Unit at the commencement of the term following their third birthday in accordance with the Local Education Authority policy. They will be pupils for the afternoon only during their first term, and morning session in their second and third terms. Children will be allowed to stay all day from the start of the term following their fourth birthday. Changes to the above routine may be required when pupil numbers are high. Lunch will be served for full-time pupils from 11.30am onwards. Parents are kindly asked to collect the morning part-time pupils from the Nursery at 11.30am.

Parents who wish to register their pupils at Ysgol Griffith Jones should go direct to Carmarthenshire County Council's webpage to make an application online at:
<https://www.carmarthenshire.gov.wales/council-services/education-schools/>

At the end of the term before they start school, all new nursery pupils will be invited to an informal meeting to meet staff and other pupils in their peer group, and to discuss the organisation of the Nursery and school. On this occasion various registration forms will be presented to all new parents, and the Headteacher and nursery teacher will explain their nature and purpose.

For further information please contact:
 The Admissions Unit
 Department for Education, Children and Family Services
 County Hall
 Carmarthen
 SA31 1JP
☎01267 246449
admissions@carmarthenshire.gov.uk

A successful application depends on the availability of a free place in the respective school year.



Presenoldeb

Gofynnwn yn garedig i bob rhiant sicrhau fod y plant yn yr ysgol yn brydlon. Os na fydd eich plentyn yn yr ysgol gofynnir i chi fel rhieni i gysylltu â'r ysgol i roddi gwybod am natur yr absenoldeb. Os na wneir hynny, ystyrir yr absenoldeb fel **absennol heb ganiatâd**.

Bydd cofrestr y bore yn cael ei chadw ar agor tan 9.30 o'r gloch a chofrestr y prynhawn tan 1.15yh. Os na fydd eich plentyn yn yr ysgol cyn yr amserau yma, heb eglurhad, yna ystyrir yr absenoldeb fel **absennol heb ganiatâd**.

Gobeithir i bob plentyn gyrraedd ein targed o 95% ar gyfer presenoldeb. Os cwmp presenoldeb plentyn o dan 90%, yna fydd y Swyddog Lles Addysg yn cysylltu â rhieni.

Salwch

Byddem yn gwerthfawrogi petai disgyblion, sy'n dangos symptomau salwch cyn dod i'r ysgol, yn cael eu cadw gartref ac nid ydynt i ddychwelyd i'r ysgol nes iddynt fod yn holliaich. Dylid cadw disgyblion sydd wedi bod yn chwydu, a/neu ddolur rhydd, gartref am 48 awr ar ôl i'r symptomau gilio.

Am wybodaeth am pryd i ddanfôn eich plentyn yn ôl i'r ysgol yn dilyn cyfnod o salwch dylai rhieni gyfeirio at y Canllawiau Cyfnodau

Attendance

We kindly ask all parents to make certain that the children are in school on time. If your child is absent, we ask you to contact the school to explain the nature of the absence. If we have no explanation, then the absence will be regarded as **unauthorised absence**.

The morning register will be kept open until 9.30am whilst the afternoon register will remain open until 1.15pm. If your child is not in school by these times, without an explanation, then the absence will be regarded as an **unauthorised absence**. It is hoped each child will reach our target for attendance of 95%. If a child's attendance falls below 90% the Education Welfare Officer will contact parents.

Illness

We would appreciate that pupils, who show symptoms of illness prior to coming to school, should be kept home on that morning, and return to school only when they are fit and well. Pupils who have been ill with sickness, and/or diarrhoea, should be kept home for 48 hours after symptoms have subsided.

For information regarding when to send your child back to school following a period of illness parent should refer to the latest

Gwahardd diweddaraf a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gorffennaf 2024. Rydym fel ysgol yn cydymffurfio â'r Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau diweddaraf Cymru Gyfan, a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gorffennaf 2024, mewn perthynas ag unrhyw achosion sy'n gysylltiedig â Dysgwr Heintus, Achosion a Hylendid cysylltiedig.

Gwyliau yn ystod y Tymor

Fe'ch anogir beidio â threfni gwyliau teuluol yn ystod y tymor. Gwelwch ffurflen gais i fynd ar wyliau yn yr atodiad. Rhwir ystyriaeth i'r cais gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethol gan ddilyn canllawiau penodol.

Trefniadau Gofal Bugeiliol

Yn ystod oriau gwersi, eu hathro fydd yn gofalu am y plant, ond y Pennaeth sydd â'r cyfrifoldeb eithaf. Amser egwyl bydd o leiaf pedwar aelod o staff ar ddyletswydd, a bydd y rhain yn newid yn ddyddiol. Yn ystod yr awr ginio fe fydd cynorthwyr ar ddyletswydd er mwyn goruchwyllo'r plant. Mae'r staff yn eu dosbarthiadau erbyn 8.40yb ac maent ar ddyletswyddau wrth y gât ar ddiwedd y dydd.

Os bydd plentyn yn sâl, cysylltir â'r rhieni er mwyn casglu'r plentyn. Os digwydd damwain fach, bydd yr athrawon yn cysylltu a'r rhieni neu gyswllt er mwyn i'r plentyn dderbyn y driniaeth angenrheidiol cyn gynted â phosib. Pe bai'r salwch neu'r ddamwain yn ddifrifol ac na fyddai modd dod i gyswllt â chi, byddwn yn mynd â'r plentyn i'r feddygfa leol neu'r ysbyty, neu'n galw meddyg i'r ysgol yn ôl y sefyllfa.

Exclusion Periods Guidance published by Public Health Wales, July 2024.

As a school we comply with the latest All Wales Infection Prevention and Control Guidelines, published by Public Health Wales, July 2024, in relation to any cases involving an Infectious Learner, Cases and related Hygiene.

Holidays in Term Time

Family Holidays during term times are not encouraged. Applications for leave to go on holiday are in the Appendix. The Headteacher and Governing Body will consider the request against set criteria.

Pastoral Care

During lesson time the class teacher supervises the children, but the Headteacher has overall charge. At break time, at least four members of the staff will be on duty on a day-by-day basis. There are mid-day supervisors on duty every day during the lunch period. Staff are in their classes by 8.40am and are on duty at the gate at the end of the day.

If a pupil is taken ill the parents are contacted and arrangements made for the child to go home. The teachers or supervisors on duty attend to minor incidents. Should there be a major accident, then the parents are informed so that the child can receive the necessary treatment as soon as possible. If the illness or injury is serious, and we are not able to contact you, then we would take the child to the local surgery or hospital or call the doctor to school.



Ein Cwricwlwm

Ein nod yn Ysgol Griffith Jones yw cynnig profiadau dysgu ac addysgu o'r radd flaenaf mewn amgylchedd ysgogol a chefnogol. Ymdrechwn i ddarparu addysg a chwricwlwm a fydd yn paratoi'r disgyblion ar gyfer byd gwaith ac i fod yn ddinasyddion cyfrifol a fydd yn cyfrannu'n hyderus at fywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru a'r Byd yn yr Unfed Ganrif ar Hugain.

Ein dyhead ar gyfer pob plentyn yw eu bod yn datblygu i fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.
- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd.
- gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywydau a gwaith.
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Ers Medi 2022 mae'r ysgol wedi cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r athrawon yn cynllunio yn unol ag egwyddorion y 6 Maes Dysgu a Phrofiad ac yn asesu yn unol â'r

Our Curriculum

At Ysgol Griffith Jones, we aim to provide high quality teaching experiences in a stimulating and supportive environment. Our aim is to provide an education and curriculum that will prepare our pupils for the world of work and to be responsible citizens who will contribute confidently to the economic, digital, social and cultural life of Wales and the World in the 21st Century.

Our aspiration for every child is that they become:

- Ambitious, capable learners who are ready to learn throughout their lives.
- Ethical, informed citizens who are ready to be citizens of Wales and the world.
- Enterprising, creative contributors who are ready to play a full part in life and work.
- Healthy, confident individuals who are ready to lead fulfilling lives as valued members of society.

Since September 2022, the school has introduced the Curriculum for Wales. The teachers plan in accordance with the principles of the 6 Areas of Learning and Experience and

egwyddorion cynnydd. Mae'r Sgiliau Trawsgwricwlaidd yn cael eu plethu yn gelfydd i'n gwersi dyddiol a cheir ffocws pwrpasol ar helpu'r dysgwyr i gyrraedd gofynion y Pedwar Diben.

Mae'r Pedwar Diben wrth wraidd gweledigaeth a holl weithgarwch yr Ysgol. Mae'r athrawon yn cynllunio gan sicrhau bod y Pedwar Diben yn ganolog i'r ddarpariaeth yn y dosbarth ac mae'r amgylchedd dysgu boed tu fewn y dosbarth neu tu allan yn hyrwyddo'r dibenion.

Trwy ddefnyddio dulliau dysgu sydd wedi selio ar themâu, mae strwythur ein cwricwlwm yn cynnwys chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Mae pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad yn cyfrannu mewn ffordd bendant a phenodol at ddatblygu pedwar diben y cwricwlwm. Gyda'i gilydd, maent yn diffinio ehangder ein cwricwlwm. Mae'r profiadau addysgiadol i ni'n cynnig yn rhan annatod o'n cwricwlwm, sy'n ehangu gorwelion ein plant, yn symbylu eu dychymyg ac yn hybu mwynhad wrth ddysgu.

Y chwe maes dysgu a phrofiad yw:

- Celfyddydau mynegiannol
- Iechyd a lles
- Dyniaethau (gan gynnwys Addysg Grefyddol a ddylai barhau i fod yn orfodol hyd at 16 oed)
- Iaith, llythrennedd a chyfathrebu (gan gynnwys Cymraeg, a ddylai barhau i fod yn orfodol hyd at 16 oed, ac ieithoedd tramor modern)
- Mathemateg a rhifedd
- Gwyddoniaeth a thechnoleg (yn cynnwys cyfrifiadureg)

Mae'r Sgiliau Traws Gwricwlaidd yn cynnwys: Rhifedd, Llythrennedd a Cymhwysedd Digidol. Darperir cwricwlwm sy'n sicrhau fod pob plentyn yn tyfu i fod yn ymwybodol o'r diwylliant Cymraeg a'r etifeddiaeth sydd ynghlwm â hyn.

assess progress in accordance with the Principles of Progression. The Cross-Curricular Skills are blended into our daily provision and there is a clear focus on supporting pupils to achieve the aims of the Four Purposes.

The Four Purposes are at the heart of our vision and our daily work at the school. The teachers plan accordingly and ensure that the Four Purposes are given due consideration within any learning activity or experience.

By using a teaching and learning method which is based on themes, the structure of our curriculum encompasses the six Areas of Learning and Experience. Each one of these Areas of Learning and Experience make distinct and strong contributions to developing the four purposes of the curriculum. Together, they define the breadth of the curriculum. The wealth of educational experiences forms an integral part of the curriculum, to broaden the children's horizons, stimulate their imagination and promote enjoyment in learning.

The six Areas of Learning and Experience are:

- Expressive arts
- Health and well-being
- Humanities (including RE which should remain compulsory to age 16)
- Languages, literacy and communication (including Welsh, which should remain compulsory to age 16, and modern foreign languages)
- Mathematics and Numeracy
- Science and technology (including computer science).

The Cross Curricular Skills include: Numeracy, Literacy, Digital Competency.

We provide a curriculum that ensures that every child develops an awareness of Welsh culture and its associated heritage.

Ein Amgylchedd Dysgu

Mae creu amgylchedd dysgu ysgogol a symbylol yn flaenoriaeth yn Ysgol Griffith Jones boed tu fewn neu tu allan i'r ystafell dosbarth. Mae athrawon yr Ysgol yn ceisio sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn ysbrydoli disgyblion i fentro, i ddysgu o'u camgymeriadau ac i ymhyfrydu yn eu creadigrwydd a'u llwyddiannau.

Mae cyfleoedd cyson yn cael eu cynllunio i ddysgu yn yr awyr agored er mwyn hybu lles a chyfleoedd addysgu. Mae'r ddarpariaeth barhaus yn cynnwys nifer o ardaloedd sydd yn ennyn chwilfrydedd a diddordeb y disgyblion. Yn yr un modd, mae'r ddarpariaeth yn cael ei gyfoethogi gydag adnoddau cyfoes sydd yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'r disgyblion.

Our Learning Environment

Creating a stimulating learning environment is a priority for us at Ysgol Griffith Jones whether inside or outside the classroom. Teachers strive to make the learning environment a stimulating and safe place where pupils feel ready to take risks, apply their creativity, learn from their mistakes and celebrate their success.

Pupils are given regular opportunities to use the outside areas to enhance their learning and wellbeing. Our continuous provision includes a number of areas that stimulate pupils' curiosity and interest. Equally, this provision is enriched with up-to-date resources that develop pupils' knowledge, understanding and skills

**Asesu**

Mae asesu yn broses barhaus yn Ysgol Griffith Jones, lle caiff dysgwyr eu hasesu trwy gydol y flwyddyn yn erbyn y cwricwlwm a gyflwynir gan ddefnyddio ystod o offer asesu digidol a phapur. Mae ein Polisi Asesu yn cael ei yrru gan Egwyddorion Cynnydd y Cwricwlwm newydd i Gymru.

Er mwyn tracio cynnydd pob plentyn ymhob Cam Cynnydd o'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Assessment

Assessment is an ongoing, continuous process at Ysgol Griffith Jones, where learners are assessed throughout the year against the delivered curriculum and a range of digital and paper-based assessment tools. Our Assessment Policy is driven by the Principles of Progression within the new Curriculum for Wales.

In order to track the progress of each pupil

bydd yr athrawon yn gwneud asesiadau parhaus o gyflawniad y plant.

Defnyddir Strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu drwy'r ysgol er mwyn datblygu gallu'r disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu. Mae'r strategaethau yn cynnwys ee pennu meini prawf llwyddiant, hunan asesu ac asesu cymheiriaid.

Rydym yn gwerthfawrogi perthynas gref gyda rhieni a gofawyr. Rydym yn cyfathrebu'n rheolaidd ac yn gwahodd rhieni a gofawyr i mewn i gwrdd ag athro eu plentyn a thrafod cynnydd eu plentyn a meysydd i'w datblygu. Mae'r ysgol yn darparu adroddiad tymhorol am gynnydd y disgybl, naill trwy noson rieni neu adroddiad ysgrifenedig.

Llais y disgybl

Byddwn yn gwrandao'n gyson ar farn a safbwyntiau ein disgyblion trwy gyfrwng holiaduron penodol, holi yn y dosbarth a thrwy'r pwyllgorau amrywiol a'r Cyngor Ysgol. Mae cynnig mewnbwn i'r dysgwr er mwyn llunio ein themâu a'r unedau o waith sydd yn gysylltiedig â'r cwricwlwm yn flaenoriaeth. Mae'r pwyllgorau yn cwrdd yn gyson. Dewisir cynrychiolwyr o bob dosbarth o Flwyddyn 3 i fyny trwy etholiad blyneddol yn gynnar yn Nhymor yr Hydref. Mae aelodau o staff yn gyfrifol am gydlynw gwaith y pwyllgorau ac mae un llywodraethwr cyswllt yn cydweithio gyda'r Cyngor Ysgol. Mae aelodau o'r pwyllgorau yn cael cyfle i gyfrannu yn ystod cyfarfodydd o'r Corff Llywodraethol.

thorough the Progression Steps, teachers will carry continuous assessment of the development of each pupil.

Assessment for Learning Strategies are implemented throughout the school in order for the pupils to take responsibility for their own learning. These strategies could incorporate eg deciding on success criteria, self and peer assessment.

We value a strong relationship with parents and carers. We regularly invite parents and carers in to meet with their child's teacher and discuss their child's progress and areas for development. The school provides a termly report to parents about their child's progress either through parent meetings or written report.

Pupil Voice

We listen to pupils' opinions and viewpoints regularly through questionnaires, class discussions and via the various committees and the School Council. Pupils are also encouraged to air their views regarding the themes and units of work they would like to study. This is a key part of our curriculum planning. The various committees meet on a regular basis. Representatives are elected from each class from Year 3 upwards at the beginning of the new school year. Along with the committee members, nominated members of staff are responsible for coordinating the work. A link governor also works with the School Council. Representatives of the School Committees are invited to contribute during Governing Body meetings.



Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)

Mae gan addysg cydberthynas a rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol wrth eu cefnogi i gyflawni'r pedwar diben fel rhan o ddull gweithredu ysgol gyfan. Mae helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, yn greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb yn y cwricwlwm yn canolbwyntio ar dri llinyn cyffredinol:

Cydberthnasau a hunaniaeth: helpu dysgwyr i feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw er mwyn datblygu cydberthnasau iach, diogel a boddhaus gyda phobl eraill, a'u helpu i wneud synnwyr o'u meddyliau a'u teimladau.

Iechyd rhywiol a lles: helpu dysgwyr i droi at ffynonellau ffeithiol ynghylch eu hiechyd a'u lles rhywiol ac atgenhedlwl gan eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus gydol eu bywydau.

Relationships and Sexuality Education (RSE)

Relationship and sexuality education has a positive and empowering role to play in the education of learners and is essential in supporting them to achieve the four purposes as part of a whole school approach. Helping learners to form and maintain a range of relationships, all based on mutual trust and respect, is at the core of relationship and sexuality education. These relationships are critical to developing emotional well-being, resilience and empathy.

Relationship and sexuality education in the curriculum focuses on three general strands:

Relationships and identity: helping learners to develop the skills they need to develop healthy, safe and fulfilling relationships with other people, and helping them make sense of their thoughts and feelings.

Sexual health and well-being: helping learners to turn to factual sources about their sexual and reproductive health and well-being enabling them to make informed decisions throughout their lives.

Grymuso, diogelwch a pharch: helpu i amddiffyn dysgwyr rhag pob math o wahaniaethu, trais, camdriniaeth ac esgeulustod a'u galluogi i adnabod cydberthnasau a sefyllfaoedd anniogel neu niweidiol, gan eu helpu i wybod pryd, sut a ble i ofyn am gymorth a chyngor.

Empowerment, safety and respect: helping to protect learners from all forms of discrimination, violence, abuse and neglect and enabling them to recognize unsafe or harmful relationships and situations, helping them to know when, how and where to ask for help and advice.

Addysg ACRh sy'n briodol o ran datblygiad y plentyn

Mae'n ofynnol bod yr ACRh a ddarperir yn briodol o ran datblygiad y dysgwyr. Felly yn unol ag amcanion Polisi ACRh yr ysgol byddwn yn ystyried ystod o ffactorau megis oedran, gwybodaeth ac aeddfedrwydd y dysgwyr ynghyd ag unrhyw anghenion dysgu ychwanegol er mwyn sicrhau bod ein darpariaeth yn ddatblygiadol briodol ar gyfer pob dysgwr.

Nid oes gan rieni/gofalwyr yr hawl i dynnu plant allan o wersi ACRh.

Developmentally appropriate RSE

It is a requirement that the RSE provided must be developmentally appropriate for learners. Therefore, in accordance with the aims of the school's RSE Policy we will take account of a range of factors such as the learners' age, knowledge and maturity and any additional learning needs to ensure that our provision is developmentally appropriate for each learner.

Parents cannot request that their child be excluded from RSE lessons.

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau ac yn orfodol i bob disgybl 3-16 oed.

Mae'r elfen hon wedi'i datblygu i adlewyrchu dyheadau a phedwar diben y Cwricwlwm i Gymru. Wrth gyflwyno Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mae'r ysgol wedi ystyried y canlynol:

Rhaid i'r elfen hon fod yn blwraliaethol, gan adlewyrchu'r ffaith bod traddodiadau crefyddol yng Nghymru yn bennaf yn rhai Cristnogol ond gan ystyried adlewyrchu'r ffaith bod nifer o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol hefyd yn cael eu dal yng Nghymru.

Rhaid i'r gwersi gael eu darparu mewn ffordd wrthrychol a beirniadol. Pan fyddant yn rhoi gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, rhaid i'r athrawon ddefnyddio dull diduedd nad yw'n annog plant na'i gwneud yn ofynnol iddynt fod yn grefyddol neu'n anghrefyddol nac i dderbyn safbwynt penodol.

Religion, Values and Ethics

Religion, Values and Ethics are part of the Humanities Area of Learning and Experience and are compulsory for all pupils aged 3-16. This element has been developed to reflect the aspirations and four purposes of the Curriculum for Wales. When introducing Religion, Values and Ethics the school has given due consideration to the following:

This element must be pluralistic, reflecting the fact that religious traditions in Wales are mainly Christian but taking into account the teachings and practices of the other main religions represented in Wales. It must also reflect the fact that a number of non-religious philosophical ideas are also held in Wales. The lessons must be provided in an objective and critical way. When teaching Religion, Values and Ethics lessons, teachers must use an impartial approach that does not encourage children or require them to be religious or non-religious or to accept a particular point of view.

Ni all rhieni a gofawyr ofyn am gael tynnu eu plant o'r gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Addoli ar y Cyd

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru rydym yn cynnal addoliad dyddiol ar y cyd. Mae aelodau o'r gymuned Eglwysig leol yn ymweld a'r ysgol yn gyson i gynnal gwasanaethau.

Os oes yna unrhyw reswm gennych fel rhieni dros beidio â chaniatáu i'ch plentyn fynychu'r gwasanaeth boreol, yna gofynnir i chi osod eich cais a'ch rhesymau mewn llythyr a'i gyfeirio at y Prifathro.

Parents and carers cannot ask to withdraw their children from the Religion, Values and Ethics lessons.

Daily Act of Collective Worship

In accordance with Government legislation a religious act of worship is held daily. Local Church in Wales cleric also visit the school regularly.

If for any reason that you as a parent wish your child not to attend the morning assembly, then you are asked to write to the Headteacher stating your reasons.



Anghenion Dysgu Ychwanegol

Ar gyfer pob disgybl yn Ysgol Gynradd Ysgol Griffith Jones sydd ag anghenion ychwanegol, rydym yn:

- Gwerthfawrogi a chydabod y rôl y mae teuluoedd yn ei chwarae ym mywydau eu disgyblion ac yn gweithio'n agos mewn partneriaeth â nhw.
- Cyflogi Cydlynnydd Anghenion Addysgol Ychwanegol profiadol i arwain ar ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ledled yr ysgol.
- Cyflwyno addysgu o ansawdd uchel, gan addasu'r cwricwlwm a'n hadnoddau i sicrhau bod disgyblion yn gallu cyrchu'r dysgu.
- Derbyn cefnogaeth a chynghor gan asiantaethau allanol e.e.. Tîm o amgylch y

Additional Learning Needs

For all pupils at Ysgol Griffith Jones Primary School who have an additional need we:

- Value and recognise the role families play in their pupil's lives and work closely in partnership with them.
- Employ an experienced Additional Educational Needs Coordinator to lead on Additional Learning Needs (ALN's) provision across the school.
- Deliver high quality teaching, adapting the curriculum and our resources to ensure pupils can access the learning.
- Seek support and advice from outside agencies such as: Team around the Family (TAF), Paediatrics, Speech and Language Therapy and the Educational Psychology

Teulu (TAF), Pediatreg, Therapi Lleferydd ac Iaith a'r Gwasanaeth Seicolegydd Addysg ac ati, i sicrhau bod anghenion pob plentyn yn cael eu nodi a'u deall yn llawn ac i ddysgu gan arbenigwyr sut orau. i gefnogi ein disgyblion.

- Darparu hyfforddiant parhaus i athrawon a chynorthwyrwyr addysgu er mwyn cwrdd ag anghenion ein disgyblion.
- Cysylltu'n agos ag ysgolion uwchradd ar amseroedd trosglwyddo i sicrhau bod gwybodaeth am ddisgyblion ADY yn cael ei gyfleu'n fel bod y broses o symud i'r ysgol uwchradd mor llyfn â phosibl.
- Defnyddio targedau mae plant yn eu deall.

Trawsnewid ADY

O fis Medi 2021, mae newidiadau wedi eu gwneud i'r ffordd y bydd Anghenion Dysgu Ychwanegol [ADY] yn cael eu cyflawni mewn ysgolion. Mae'r Ddeddf ADY yn nodi'r system gymorth statudol newydd yng Nghymru ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion arbennig. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar y cyd â Chyngor Sir Gaerfyrddin i sicrhau trosglwyddiad esmwyth i'r Ddeddf ADY Newydd.

Yn unol â'r trawsnewid Statudol ADY, mae'r ysgol yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth gynllunio targedau a'r camau nesaf mewn dysgu. Mae personoli addysg yn ymwneud â chydabod bod pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol yn unigolyn. Trwy ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bob plentyn unigol gallwn ymateb i'w anghenion. Gellir dysgu a chefnogi pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol yn y ffordd orau bosibl i sicrhau ei fod yn cyrraedd ei botensial.

Cofiwch os oes gan eich plentyn anawsterau dysgu neu anabledd yna dewch i drafod y mater gyda ni cyn i'ch plentyn gychwyn yn yr ysgol; fedrwn weithio gyda'n gilydd i oresgyn y problemau trwy sicrhau bod adnoddau addas yn eu lle.

Darperir ar gyfer plant galluog iawn yn y dosbarthiadau prif ffrwd. Bydd yr athrawon yn gwahaniaethu gwaith yn ôl gallu. Ein nod yw

Service etc., to ensure each child's needs are fully identified and understood and to learn from specialists how best to support our ALN pupils.

- Provide on-going training to teachers and teaching assistants in meeting pupils' needs in the classroom.
- Liaise closely with secondary schools at transition times to ensure ALN pupil information is clearly communicated and recommendations heard so that the move to secondary school is as smoother as possible.
- Use pupil-friendly targets and needs-based individual education plans (IEPs).

ALN Reform

From September 2021, changes were made to the way that Additional Learning Needs [ALN] will be carried out in schools. The ALN Act sets out the new statutory support system in Wales for children and young people with special needs. We are currently working in collaboration with Carmarthenshire County Council to ensure a smooth transition to the new ALN Act.

In line with the ALN Statutory Reform, the school promotes a person-centred approach to planning targets and next steps in learning. Personalising education is about recognising that every pupil with additional learning needs is an individual. By focusing on what matters to each individual child we can respond to their needs. Each pupil with additional learning needs can be taught and supported in the best possible way to ensure that they reach their potential.

If you think that your child has any learning difficulties or disability? then please inform us prior to your child starting school; we can work in partnership to try and overcome these difficulties by ensuring relevant resources are put in place.

Very able children are catered for in the mainstream classes. Work set is differentiated according to ability. Our aim is

darparu addysg ymestynnol i bob plentyn ac i ddatblygu pob plentyn i gyrraedd eu potensial.

to provide every child with challenging tasks and to develop each child to his/her potential.

Cyfle Cyfartal

Mae gan yr ysgol bolisi Cyfle Cyfartal a luniwyd gan y Corff Llywodraethol sy'n hybu'r elfennau canlynol. Credwn yn ein hysgol ni fod pob plentyn, beth bynnag ei hil, ei genedl neu ei allu, yn haeddu cyfle cyfartal.

Trwy gydol pob gweithgaredd yn yr ysgol a'r cwricwlwm, bydd gan y plentyn gyfle i gymryd rhan ac, wrth wneud hynny, i ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau personol a'u boddhad. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod gweithgareddau a thasgau yn ddiddorol i fechgyn a merched. Ystyrir cefndir ieithyddol er mwyn sicrhau cyfleoedd cyfartal i'r disgyblion.

Dylai disgyblion sydd ag anawsterau arbennig gael eu hannog i gyflawni gymaint â phosibl o'u hastudiaethau. Rhaid darparu'n hyblyg ac addas er mwyn eu helpu i gyflawni eu potensial llawn. Mae'n fwriad gennym i drafod pob plentyn yn gyfartal.

Equal Opportunities

The school has an Equal Opportunities Policy drawn up by the Governing Body, which promotes the following elements. We believe that every child whatever their gender, race, nationality or ability are treated equally.

Throughout all the school's activities every child will have the opportunity to take part and through taking part to develop their knowledge, personal skills and pleasure. Every effort is made to ensure that activities and tasks are suitable for boys and girls. Linguistic background is considered in order to ensure equal opportunities.

Children with additional learning needs will be encouraged to accomplish as much as is possible of their work. Provision will be versatile in order that all pupils reach their potential. It is our aim to treat each pupil equally.



Diogelu Plant / Amddiffyn Plant

Mae Cymuned Ysgol Griffith Jones yn ymrwymo i sicrhau diogelwch ac amddiffyn holl blant yr ysgol. Byddant yn cymryd camau i

Safeguarding / Child Protection

The Community of Ysgol Griffith Jones are committed to ensure the safety and protection of all children and will take action to safeguard

ddiogelu eu lles ac yn cydnabod bod gan y plant hawl i'w cael eu hamddiffyn. Mae trefn ffurfiol i'w gael i ddelio gyda materion Diogelu Plant ac Amddiffyn Plant, ac mae angen weithiau cyfeirio achosion at Asiantaethau Allanol. Mae'r ysgol yn defnyddio system 'My Concern' i gofnodi unrhyw bryderon diogelu a llesiant. Mae pob aelod o staff yr ysgol yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn ein plant. Mae pawb ar y staff yn cael eu gwirio gan y DBS. Bydd pob ymwelydd wedi cael yr holl wiriadau priodol. O fewn yr ysgol, mae staff penodol sy'n gyfrifol am faterion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant. Mae'r staff hyn wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol.

Swyddog Diogelu'r Ysgol yw Mr Emyr Davies (Pennaeth).

Dirprwy Swyddog Dynodedig - Mrs Mai Giles
Dirprwy Swyddog Dynodedig - Mrs Kay Jenkins

Llywodraethwraig Diogelu'r Ysgol yw Mrs Carly Jones.

Mae polisi cynhwysfawr yn amlinellu'r drefn a'r cymorth mae'r ysgol yn darparu. Mae hwn ar gael o'r ysgol neu gellir ei weld ar ein gwefan.

their wellbeing and acknowledge that children have a right to protection. There is a formal procedure in place to deal with Safeguarding and Child Protection, and it is necessary on occasions to make referrals accordingly. The school uses the 'My Concern' system to log any concerns linked to pupils' safeguarding and wellbeing. All staff members are responsible for pupil safety and wellbeing. All staff members are DBS checked and any visitors to the school have undergone the necessary checks. In school there are also designated staff who are responsible and have received extra training.

The Safeguarding Officer for the school is Mr Emyr Davies (Headteacher).

Deputy Safeguarding Officer – Mrs Mai Giles
Deputy Safeguarding Officer – Mrs Kay Jenkins

